Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Trosolwg o Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid yng Nghymru

## Medi 2023

# Cynnwys


**Rhagarweiniad .................................................................... 1**

**Dadansoddiad o ganlyniadau arolygon ........................................... 1**

Enw a chartref gweinyddol y cynllun arsylwi cymheiriaid ........................... 2

Manteision cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid.................................. 3

Cyfranogwyr mewn arsylwi addysgu gan gymheiriaid ................................ 7

Pa mor aml mae arsylwi cymheiriaid yn digwydd? ...................................... 8

Agweddau ar addysgu a gwmpesir gan arsylwi cymheiriaid ........................ 9

Hyblygrwydd a fformat cynlluniau arsylwi cymheiriaid ............................... 10

Hyfforddiant ac arweiniad i staff sy'n ymwneud ag arsylwi cymheiriaid.............. 11

Rhannu arfer arloesol sy'n gysylltiedig ag arsylwi cymheiriaid..................... 13

Heriau sy'n ymwneud ag arsylwi cymheiriaid ............................................ 13

**Casgliad.............................................................................. 15**

**Atodlen 1 - Cyfranwyr at y prosiect ............................................... 16**

**Atodlen 2 - Darllen Pellach ........................................................ 17**

**Atodlen 3 – Cwestiynau’r Arolwg ................................................... 18**

# Rhagarweiniad

Fel rhan o lythyr Grant 2022-23, comisiynodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) i gynnal prosiect gwelliant i archwilio’r arferion presennol o ran arsylwi addysgu gan gymheiriaid yng Nghymru. Roedd y prosiect hwn i gynnwys cyhoeddi adroddiad yn ymdrin ag arfer yn y darparwyr a reoleiddir ac a ariennir a sut mae hyn yn cymharu ag arfer ledled y DU, ynghyd â gweminar i rannu canlyniadau'r prosiect.

Dosbarthwyd holiadur i bob un o’r 11 darparydd perthnasol, a oedd yn cynnwys naw sefydliad AU a dau sefydliad AB, a derbyniwyd ymatebion gan bob un ohonynt. Roedd y rhai a ymatebodd yn unigolion â chyfrifoldeb am addysgu a dysgu / datblygiad academaidd ar lefel uwch o fewn y darparwyr. Yna gofynnwyd i ddarparwyr gymryd rhan mewn cyfweliad lled-strwythuredig byr, i drafod eu cynllun arsylwi gan gymheiriaid mewn mwy o fanylder. Ymatebodd naw a chynhaliwyd cyfweliadau 30 munud gyda’r naw darparydd hyn, sef wyth sefydliad AU ac un sefydliad AB. Mewn rhai achosion, roedd llawlyfrau ar gyfer cynlluniau ar gael i’r cyhoedd.

Cynhaliwyd ymchwil pen desg mewn perthynas ag arfer ar draws rhannau eraill o'r DU, a chynhaliwyd arolwg o brosesau mewn 25 o sefydliadau AU - yn amrywio o ran maint, strwythur a math. Roedd y dewis ar hap, ac roedd ymchwil yn canolbwyntio ar lawlyfrau ac adnoddau eraill gan y darparwyr hyn, sydd ar gael yn gyhoeddus.

Rhoddwyd cyflwyniad llafar ar gynnydd mewn perthynas â’r prosiect i Rwydwaith Ansawdd Cymru ar 7fed Mawrth 2023, a gweminar i rannu’r canfyddiadau allweddol ar 27ain Mehefin 2023. Rhoddodd tri darparydd gyflwyniadau ar agweddau o'u cynlluniau fel rhan o'r weminar.


# Dadansoddiad o ganlyniadau arolygon

Mae’r isadrannau isod yn gysylltiedig â chwestiynau’r arolwg ac yn cynnwys rhai myfyrdodau o’r cyfweliadau. Mae cyfeiriadau at arfer ledled y DU hefyd yn cael eu hystyried o dan y penawdau unigol.

## Cyfranogiad darparwyr mewn arsylwi gan gymheiriaid

Dywedodd saith o'r darparwyr a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru fod ganddynt gynllun arsylwi cymheiriaid (o hyn allan, 'cynllun' yn y prif destun). Dewisodd y pedwar oedd yn weddill ‘arall’ fel eu hymateb gan roi rhagor o fanylion.

***A oes gan eich sefydliad broses/cynllun arsylwi gan gymheiriaid?***



Nododd dau o'r pedwar a ymatebodd 'arall' fod eu cynlluniau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Dywedodd un o'r rhain eu bod yn y broses o dreialu gwahanol weithgareddau, tra nododd y llall fod strategaeth dysgu ac addysgu newydd wedi'i chyflwyno, gyda ffocws clir ar ragoriaeth mewn addysgu, yn helpu i gefnogi adolygiad cynllun trylwyr. Nododd un o'r lleill fod eu cynllun yn cynnwys arsylwi addysgu gan gymheiriaid, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny'n unig. Nododd y pedwerydd darparydd a ymatebodd 'arall' eu bod, mewn ymateb i COVID-19, wedi symud i drafodaeth ymysg cymheiriaid, a allai gael ei ategu gan arsylwi cymheiriaid pe bai'r ddwy ochr yn cytuno. Mae staff yn gweld trafodaeth ymysg cymheiriaid yn fwy adeiladol nag arsylwi cymheiriaid, ac mae hyn wedi parhau o ganlyniad.

Felly mae gan bob darparydd a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru naill ai gynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid, a all gynnwys un neu fwy o opsiynau, neu maent yn y broses o adolygu cynllun sy'n bodoli eisoes. Dywedodd sawl un mewn sgwrs fod y pandemig a'r symudiad i ddysgu ar-lein a ddaeth yn ei sgil, wedi eu harwain i edrych yn ofalus ar eu cynllun ac ehangu ei gwmpas.


Mae'r ymchwil wrth y ddesg ynghylch arfer yn y DU yn fwy cyffredinol, yn dangos bod arsylwi gan gymheiriaid hefyd yn gyffredin mewn darparwyr yng ngwledydd eraill y DU.

## Enw a chartref gweinyddol y cynllun arsylwi cymheiriaid

Defnyddir ystod o enwau gan ddarparwyr yng Nghymru ar gyfer eu cynlluniau, gyda phedwar o'r rhai a holwyd yn dewis 'arsylwi addysgu gan gymheiriaid'. Mae'r lleill yn cynnwys termau fel 'cymorth gan gymheiriaid' neu 'myfyrio gan gymheiriaid' yn nheitl eu cynllun. Mae sawl term o'r fath yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol mewn sgwrs, ond at ddibenion yr adroddiad hwn, arsylwi gan gymheiriaid yw'r term a ddefnyddir yn unol â briff y prosiect.


Nododd rhai darparwyr yn y cyfweliadau fod enw'r broses yn ffactor allweddol wrth sefydlu'r ethos a'r meddylfryd diwylliannol cywir. Roedd rhai o'r farn bod gan y sylwadau islais negyddol yn ymwneud â pherfformiad ac felly wrth adolygu cynllun, ystyriwyd bod ymgynghori eang ynglŷn ag enw priodol yn ffactor allweddol wrth sefydlu perchnogaeth staff a sicrhau ymgysylltiad gan bawb. Pwysleisiodd pawb y cyfwelwyd â hwy natur ddatblygiadol, anfeirniadol a chyfrinachol eu cynlluniau.

***Beth yw'r enw a roddir ar eich proses?***



Fel y nodir isod, dywedodd pedwar darparydd fod eu cynlluniau wedi'u dyfeisio ac yn cael eu cynnal gan uned ganolog, yn bennaf canolfan addysgu a dysgu neu debyg. Mewn rhai achosion, caiff cyfrifoldeb ei rannu, sef bod cyfarwyddwyr dysgu ac addysgu neu ddeoniaid cyswllt yn arwain ar elfennau gweithredol y cynllun yn eu cyfadrannau eu hunain. Nododd dau ddarparydd yn eu hymatebion i'r holiadur mai cyfadrannau unigol sy'n gyfrifol am sicrhau bod proses arsylwi gan gymheiriaid yn digwydd, ac roedd un o'r lleill wedi cynnwys hyn o dan 'arall'. Yn achos pob un o'r tri darparydd, cyfrifoldeb y cyfadrannau unigol yw penderfynu sut y dymunant weithredu eu cynlluniau sefydliadol, er bod disgwyl i'r holl staff gael eu harsylwi'n flynyddol. Mewn darparydd arall, ysgolion unigol sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynllun arsylwi cymheiriaid yn cael ei gynnal. Mae'r rhai sydd â chynlluniau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn bwriadu lleoli eu cynlluniau'n ganolog.

***Pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y broses?***





Mae'r amrywiad sydd i'w weld o ran enw a lleoliad y cynllun yng Nghymru yn debyg i'r hyn sy'n digwydd ar draws y DU. Ledled y DU, mae yna ffocws cynyddol ar fodel cydweithredol sy'n cael ei ysgogi gan gymheiriaid, a mwy o ddefnydd o eiriau fel cymorth, myfyrio a gwelliant yn cael eu cynnwys yn nheitl y cynllun. Yn yr un modd, mae uned ganolog, megis athrofa datblygiad academaidd neu academi dysgu ac addysgu, yn aml yn gweinyddu agweddau allweddol ar y cynllun ac yn gyfrifol am hyfforddiant ac arweiniad cyffredinol. O dan system o'r fath, mae cyfadrannau neu debyg yn canolbwyntio'n gyffredinol ar elfennau gweithredol y cynllun o ddydd i ddydd, gan adrodd yn ôl i'r uned ganolog ar yr hyn a gyflawnir drwy aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dynodedig am arsylwi gan gymheiriaid.

## Manteision cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid


Gofynnwyd i ddarparwyr yng Nghymru am fanteision y cynllun ac i raddio chwe datganiad o 1-6, gydag 1 y pwysicaf. Gosododd saith darparydd, sef 63.7% o ymatebwyr, y datganiad, 'nid yw arsylwi cymheiriaid yn feirniadol ac mae'n annog colegoldeb, rhwydweithio a thrafodaeth fyfyriol', yn eu tri uchaf. Nododd saith darparydd hefyd fod hyn yn gwella arfer addysgu ac ansawdd profiad myfyrwyr yn eu tri uchaf.

Mynegwyd teimladau tebyg o dan 'sylwadau eraill', a dywedodd un darparydd fod hyn yn 'annog perthnasoedd ac arfer rhyngddisgyblaethol cydweithredol ac ystyrlon, gan gynnwys ar draws cyfadrannau.' Pwysleisiodd darparydd arall fod arsylwi gan gymheiriaid yn bwysig i gefnogi diwylliant sy'n gwerthfawrogi addysgu a dysgu ac sy'n cynorthwyo ysgolion i wneud gwelliannau mewn meysydd o bwysigrwydd strategol.

***Mae arsylwi gan gymheiriaid yn anfeirniadol ac yn annog colegoldeb, rhwydweithio a thrafodaeth fyfyriol.***





***Mae arsylwi gan gymheiriaid yn cyfoethogi arfer addysgu ac yn gwella ansawdd profiad myfyrwyr.***





Roedd chwe darparydd, sef 54.6% o ymatebwyr yr holiadur yn graddio'r ffaith bod arsylwi cymheiriaid yn helpu i godi hyder a datblygu arfer yn eu tri uchaf, tra bod 54.6% o ddarparwyr hefyd yn gweld ei rôl fel ffordd o nodi arfer orau yn un o fanteision pwysig y cynllun.

Nododd un darparydd hefyd gyfraniad arsylwi gan gymheiriaid at gryfhau ymwybyddiaeth sefydliadol o anghenion hyfforddiant a chymorth, a thrwy hynny ddylanwadu ar yr hyn a gynigir gan adrannau ac yn ganolog i staff, fel mantais ychwanegol cynllun o'r fath. Yn ystod y cyfweliadau pwysleisiodd darparwyr ymhellach yr hunan-effeithiolrwydd cynyddol y gall cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid ei alluogi, a all arwain at welliannau sefydliadol ehangach. Mewn trafodaeth, pwysleisiodd pawb fanteision cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid, gyda'r sawl sy'n arsylwi'n elwa cymaint â'r sawl yr arsylwir arno.

***Mae arsylwi gan gymheiriaid yn gymorth i godi hyder a datblygu arfer ar gyfer y naill a’r llall.***





***Mae arsylwi gan gymheiriaid yn dynodi arferion gorau i'w lledaenu'n ehangach.***





Nododd pum darparydd, sef 44.5% o’r rhai a ymatebodd i’r holiadur fod, 'codi ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau addysgu', a 'helpu i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol', yn un o'r tair prif fantais o gynllun arsylwi cymheiriaid. Mae darparwyr yn gweld arsylwi gan gymheiriaid yn broses ffurfiannol, sy’n cynorthwyo staff i nodi sut y gallant ddatblygu eu gyrfaoedd. Awgrymodd sawl darparydd y gellid defnyddio arsylwi gan gymheiriaid fel cyfle i drafod cais am Gymrodoriaeth / Cymrodoriaeth Gyswllt gydag AU Ymlaen. Awgrymwyd hefyd y gallai cymryd rhan fel sylwedydd fod yn ffynhonnell dystiolaeth werthfawr o brofiad mentora i’r rhai sy’n gwneud cais am Uwch Gymrodoriaeth.

***Mae arsylwi gan gymheiriaid yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau addysgu a dysgu.***




***Mae arsylwi gan gymheiriaid yn cynorthwyo â datblygiad personol a phroffesiynol.***




Mae pob graff uchod yn dangos ystod eang o ymatebion, er enghraifft, nododd pedwar darparydd fod 'arsylwi cymheiriaid yn helpu i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol' fel manteision pwysicaf cynllun arsylwi cymheiriaid, tra bod pedwar darparydd hefyd yn ei nodi fel y chweched budd pwysicaf.

Mynegir ystod debyg o deimladau i'r rhai yn yr arolwg hwn yn llawlyfrau darparwyr ledled y DU. Fodd bynnag, mae llawlyfrau'n gyffredinol yn canolbwyntio ar allu'r broses i alluogi adfyfyrio personol ac archwilio arfer mewn amgylchedd anfygythiol drwy drafod gyda chydweithiwr. Nid yw arsylwi gan gymheiriaid yn rhan o broses rheoli perfformiad yn unrhyw un o'r darparwyr y rhoddwyd sylw iddynt ledled y DU, ond yn hytrach fe'i hystyrir yn fodd o wella addysgu ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Yn unol â natur gyfrinachol cynlluniau o'r fath, nid yw'n ymddangos bod disgwyl i gyfadrannau neu ysgolion adrodd yn fanwl ar ddeilliannau fel y cyfryw, ond yn hytrach eu bod yn dogfennu, naill ai'n ganolog neu ar lefel cyfadran, bod y broses wedi digwydd.


Mae adnoddau staff a grëwyd gan lawer o ddarparwyr y tu allan i Gymru yn amlygu'r manteision i'r holl gyfranogwyr a all, ynghyd â datblygu a hyrwyddo addysgu da, gynnwys

cyfleoedd i ehangu eu rhwydwaith proffesiynol a threfniadau cydweithredu newydd. Mae llawer o ddarparwyr y tu allan i Gymru, fel y rheiny yng Nghymru, hefyd yn cyfeirio'n benodol at sut y gellir defnyddio eu prosesau arsylwi gan gymheiriaid fel tystiolaeth mewn ceisiadau am Gymrodoriaeth AU Ymlaen neu wrth geisio dyrchafiad. Mae lleiafrif o ddarparwyr y tu allan i Gymru yn meincnodi eu cynllun i'r Fframwaith Safonau Proffesiynol.

## Cyfranogwyr mewn arsylwi addysgu gan gymheiriaid

Dywedodd naw darparydd yng Nghymru yn eu hymatebion fod disgwyliad i'r holl staff llawn-amser a rhan-amser sydd â chyfrifoldebau addysgu ymgymryd â'r broses arsylwi cymheiriaid, fel arsylwyr ac fel y sawl yr arsylwir arnynt, bob blwyddyn. Mae staff y llyfrgell ac eraill sy'n cefnogi addysgu a dysgu hefyd yn cael cynnig y cyfle mewn nifer fach o ddarparwyr, tra bod dau ddarparydd wedi nodi eu bod yn ystyried cynnwys staff proffesiynol a staff sy'n cael eu talu fesul awr, er bod un darparydd wedi nodi y gallai cynnwys staff a delir fesul awr godi goblygiadau adnoddau y byddai angen eu hystyried. Mae staff sy'n cael eu talu fesul awr yn cael eu harsylwi mewn chwe darparydd ar hyn o bryd.

***A yw'r broses yn orfodol ar gyfer rhai categorïau o staff? Ticiwch bob blwch perthnasol isod.***




Nododd pum darparydd yng Nghymru fod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sydd â chyfrifoldebau addysgu'n cael eu harsylwi, er mewn sawl achos, cynhelir eu harsylwadau drwy goleg doethurol neu debyg gan fod eu hanghenion hyfforddiant ychydig yn wahanol ar y cyfan. Mae arsylwi rheolaidd gan gymheiriaid yn elfen allweddol o raglenni achrededig AU Ymlaen mewn addysgu a dysgu, a dywedodd sawl darparydd yn ystod cyfweliad fod ganddynt fyfyrwyr ymchwil yn dilyn rhaglen achrededig o'r fath. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn cynnwys staff anrhydeddus neu staff allanol neu debyg yn eu cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid.

Nododd un sefydliad AU fod y staff a fydd yn cael eu cynnwys yn eu cynllun newydd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Dywedodd sefydliad AU arall na fydd cymryd rhan yn eu cynllun yn orfodol wrth symud ymlaen, ond eu bod yn edrych ar gyfranogiad gan ystod eang o unigolion sy'n ymwneud â gwella profiad myfyrwyr drwy gynnig nifer o opsiynau cydweithredol, amlochrog. Nododd darparydd arall mewn cyfweliad fod partneriaid cydweithredol hefyd yn cymryd rhan yn eu cynllun.


O ran cyfranogwyr, mae'r patrwm yn debyg ar draws y DU ymysg y darparwyr y rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r ymarfer wrth y ddesg. Mae'r ffocws yn gyffredinol ar unrhyw staff sy'n cynorthwyo profiad dysgu myfyrwyr. Mae pob un yn nodi'r disgwyliad bod staff llawn-amser a rhan-amser yn ymgymryd â rhyw fath o arsylwi gan gymheiriaid. Mae lleiafrif o ddarparwyr

yn ymhelaethu ar eu disgwyliadau yn eu dogfennaeth, gan nodi er enghraifft y dylid cynnwys arddangoswyr, technegwyr a staff llyfrgell a chymorth, tra bod eraill yn nodi bod staff sy'n cael eu talu fesul awr ac ôl-raddedigion yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r cynllun. Mae rhai darparwyr yn datgan yn glir eu bod yn ceisio ymgysylltiad 100% â'u cynllun arsylwi gan gymheiriaid. Mae un darparydd y tu allan i Gymru yn cyfeirio'n benodol at y ffaith y dylai aelodau newydd o staff addysgu, gan gynnwys staff rhan-amser, gael eu harsylwi gan gymheiriaid yn ystod eu tymor cyntaf o addysgu, gyda staff profiadol yn arsylwi darlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr. Yn yr un modd, nododd un darparydd yng Nghymru yn ystod cyfweliad fod staff newydd sydd heb gymhwyster addysgu yn cael eu harsylwi'n anffurfiol yn y lle cyntaf yn eu tymor cyntaf. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, yng Nghymru a'r DU ehangach, gwirfoddolwyr yw arsylwyr. Yn y mwyafrif, fodd bynnag, mae disgwyliad bod yr holl staff yn ymgymryd â rôl arsylwr yn ogystal â chael eu harsylwi.

## Pa mor aml mae arsylwi cymheiriaid yn digwydd?

Nododd chwe ymatebydd fod arsylwi cymheiriaid yn digwydd yn flynyddol ymhlith yr holl staff cymwys. Er, fel y nodwyd gan y cyfranogwyr, mae yna amrywiaeth ymhlith darparwyr o ran pwy sy'n cael eu harsylwi; pwysleisiodd sawl un yn y cyfweliad fod staff llawn-amser yn cael eu harsylwi bob blwyddyn.

***Pa mor aml mae'r broses yn digwydd?***




Mae amrywiad ymhlith y darparwyr eraill yng Nghymru; mewn un achos caiff yr holl staff eu harsylwi ddwywaith o fewn blwyddyn, ac mae un arall yn cynnal eu cynllun dros gyfnod o ddwy flynedd. O dan 'arall', dywedodd un darparydd hefyd eu bod yn cynnal eu cynllun dros ddwy flynedd. Mae'n ofynnol i staff yn y ddau ddarparydd sydd ar gylchred dwy flynedd gymryd rhan bob blwyddyn, gydag o leiaf un o'r arsylwadau ym mhob cylchred dwy flynedd yn weithgaredd a addysgir. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae dau sefydliad AU yn y cyfnod datblygu o ran creu cynllun arsylwi cymheiriaid diwygiedig. Mae un o'r darparwyr hyn yn bwriadu caniatáu hyblygrwydd i dimau unigol o ran pryd y byddant yn trefnu arsylwadau fel rhan o ddatblygu eu harferion. Mae'r darparydd arall hefyd yn ystyried cynnig hyblygrwydd o ran pa mor rheolaidd y bydd arsylwadau'n digwydd, gyda phroffil staff yn ystyriaeth bwysig, yn hytrach na gosod yr un llinell amser ar gyfer pawb. Mae'r darparydd hwn o'r farn y bydd ystyried rolau fel hyn yn ei wneud yn weithgaredd mwy ystyrlon. Yn yr un modd, dywedodd un o'r darparwyr, a nododd fod arsylwi gan gymheiriaid yn digwydd yn flynyddol, nad yw staff profiadol weithiau'n cael eu harsylwi mor aml â'r rhai sydd â llai o brofiad.


Mae nifer yr arsylwadau o aelodau staff hefyd yn cael ei gyfrifo yn ôl yr angen mewn lleiafrif o'r darparwyr yn y DU a adolygwyd. Yn nodweddiadol, fodd bynnag, mae darparwyr yn

cynnal eu cynlluniau yn flynyddol, er bod rhai darparwyr yn ffafrio pob dwy flynedd. Weithiau mae yna hyblygrwydd o fewn y broses sy'n caniatáu i gyfadrannau gynnal y cynllun bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, fel y gwelant yn dda. Fodd bynnag, mae sawl llawlyfr yn pwysleisio bod angen i'r broses fod yn un barhaus, nid rhywbeth sy'n digwydd 'unwaith ac am byth'. Er enghraifft, er mwyn helpu i sicrhau nad yw'n dod yn ymarfer gweinyddol yn unig, nododd un darparydd y tu allan i Gymru yn eu deunydd ysgrifenedig y caiff y sawl sy'n cael eu harsylwi eu gwahodd i grŵp ffocws gydag eraill a arsylwyd sawl mis ar ôl yr arsylwi i drafod sut mae'r broses wedi effeithio ar eu haddysgu, yn ogystal â dysgu myfyrwyr.

## Agweddau ar addysgu a gwmpesir gan arsylwi cymheiriaid

Yng ngoleuni'r ffaith bod y ffocws yn bennaf ar fyfyrio beirniadol cydweithredol, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yng Nghymru'n cynnig ystod eang o gyfleoedd ar gyfer 'deialog broffesiynol' sy'n cwmpasu addysgu yn ei ystyr ehangaf. Yn ogystal â'r elfennau hynny a gwmpesir yn y siart cylch isod, nododd sawl darparydd, naill ai o dan 'arall' ar yr holiadur, neu yn ystod y cyfweliadau, fod eu cynllun yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer trafodaeth fyfyriol gyda chydweithwyr ar yr holl weithgareddau sy'n ymwneud ag addysgu a chynnig cymorth i fyfyrwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys arweinyddiaeth addysgu a dysgu, fel cadeirio pwyllgorau addysgu a dysgu, cyfarfodydd adolygu addysgu a dysgu gyda phartneriaid allanol, dylunio deunyddiau addysgu gan gynnwys adnoddau dysgu rhithwir, a chynllunio asesiadau ac adborth. Awgrymodd sawl darparydd y gall deialog broffesiynol fod yn gyfle da i drafod cynlluniau strategol cyfadran neu ysgol. Nododd un darparydd fod cofleidio pob agwedd ar arfer wedi helpu i chwalu seilos a datblygu ymddiriedaeth, tra dywedodd un arall eu bod yn dymuno iddo fod yn gyfrwng i gofnodi'r holl waith sy'n cael ei wneud ac i beidio â chael ei weld fel rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu.

***Pa weithgaredd addysgu y gellir ei ystyried fel rhan o'ch proses arsylwi gan gymheiriaid? Ticiwch bob gweithgaredd perthnasol, boed hynny wyneb-yn-wyneb neu ar-lein.***





Mae'r ffocws cynyddol hwn ar gyfleoedd i arsylwi a thrafod y tu allan i'r ddarlith neu seminar draddodiadol, yn adlewyrchu meddylfryd ac arfer ledled y DU yn fwy cyffredinol. Mae rhai darparwyr yn y DU yn nodi yn eu llawlyfrau, y gall addysgu gynnwys sesiynau labordy neu deithiau maes yn ogystal â thiwtorialau PhD, tra bod y mwyafrif hefyd bellach yn cynnwys addysgu ar-lein cydamserol ac anghydamserol fel opsiwn. Yn eu hadnoddau, mae cynlluniau ledled Cymru a'r DU yn aml yn pwysleisio bod unrhyw fath o weithgarwch addysgol sy'n hwyluso dysgu yn briodol i'w ystyried.


## Hyblygrwydd a fformat cynlluniau arsylwi cymheiriaid

Mae faint o hyblygrwydd sydd gan gyfadrannau a'r rhai sy'n cael eu harsylwi o ran eu cynlluniau sefydliadol yn amrywio o un darparydd i'r llall yng Nghymru fel y nodir yn y siartiau bar isod, lle mae 1 yn nodi hyblygrwydd cyfyngedig iawn a 5 yn nodi hyblygrwydd llwyr. Dewisodd 10 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn mewn perthynas â'u harfer presennol.

***Cyfadrannau neu Ysgolion***




***Y sawl sy'n cael eu harsylwi***




Gellir esbonio'r amrywiad hwn yn rhannol gan natur y gwahanol gynlluniau, ac a yw'r cyfrifoldeb cyffredinol am gynllun yn ganolog neu'n perthyn i gyfadran neu ysgol fel y trafodwyd yn gynharach. Mewn achosion lle mae cyfadrannau neu ysgolion yn rheoli'r cynllun eu hunain, mae'n bosib nad oes yna unrhyw brosesau sefydliadol safonol i'w dilyn, ond yn gyffredinol darperir templedi enghreifftiol a ffurflenni o uned ganolog, i gynorthwyo â datblygiad y cynllun. Dywedodd sawl darparydd fod galluogi staff i ddewis unigolyn neu unigolion i weithio gyda nhw, yn helpu i greu diwylliant o ymddiriedaeth ac ymdeimlad o asiantaeth, sy'n hanfodol ar gyfer profiad adfyfyriol llwyddiannus. Er mwyn helpu i gefnogi perchnogaeth o addysgu a dysgu gan staff, yn ogystal â'u grymuso i ystyried eu datblygiad personol yn ehangach, mae un darparydd yn bwriadu cyflwyno ystod o opsiynau datblygiadol, sy'n amrywio o ran hyd, dwyster a ffocws, fel rhan o'u cynllun diwygiedig.

Mae rhai darparwyr rheoleiddiedig yng Nghymru yn annog disgyblaethau i arsylwi ei gilydd yn addysgu, tra bod eraill yn ystyried galluogi'r posibilrwydd hwn neu gynnal gweithgareddau peilot yn y maes hwn. Yn ogystal â phrosesau rhannu myfyriol o fewn ysgolion sy'n orfodol, mae darparydd arall yn ystyried cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhannu myfyriol trawsddisgyblaethol drwy gynllun sefydliadol y gellir optio i mewn iddo 2023-24. Dywedodd un darparydd fod arsylwadau trawsddisgyblaethol 'yn helpu unigolion i fynd allan o'u man cyfforddus a chanolbwyntio ar addysgeg, nid eu pwnc'. Nododd un arall hefyd fod arsylwadau traws-gampws weithiau'n cael eu galluogi.

Yn dibynnu ar natur yr arsylwi, bydd y ffurf yn amlwg yn amrywio. Fodd bynnag, mae arsylwi addysgu traddodiadol, boed hynny wyneb-yn-wyneb neu ar-lein, yn tueddu i gynnwys rhag-gyfarfod i gytuno ar feini prawf a meysydd ar gyfer arsylwi, yr arsylwi ei hun (oddeutu awr) a thrafodaeth ôl-arsylwi. Nododd un darparydd fod yr un broses yn cael ei defnyddio yn eu darpariaeth AB, ac AU, gyda llawer o staff yn addysgu ar draws y naill a'r llall. Mae nifer o ddarparwyr yn cynnwys hunanfyfyrio wedi'i ddogfennu gan y darlithydd, cyn y cyfarfod cychwynnol ar y cyd fel rhan o'r fformat. Nododd sawl darparydd fod pwyslais y cyfarfodydd

ar y cyd ar ddatblygiad personol, ynghyd â dull cydweithredol o wella profiad dysgu myfyrwyr drwy sgwrsio.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cadw cofnod yn ganolog o bwy sydd wedi ymwneud ag arsylwi, ac mae rhai unedau canolog hefyd yn cofnodi arfer da. Mewn darparwyr eraill, cedwir cofnodion ar lefel cyfadran, tra nododd un darparydd bwysigrwydd sicrhau mai'r unigolyn sy'n cael ei arsylwi sy'n berchen ar y broses, ac felly nid oes unrhyw waith papur na monitro canolog yn fwriadol. Er nad yw'n declyn rheoli perfformiad, nododd lleiafrif o ddarparwyr yn y cyfweliadau y gallai arsylwi gan gymheiriaid gael ei drafod mewn gwerthusiadau neu adolygiadau datblygiad personol, gyda'r ffocws ar drafod arfer addysgol yn gyffredinol ac unrhyw anghenion hyfforddiant.


Mae'r amrywiad a geir ymhlith darparwyr yng Nghymru yn adlewyrchu'r darlun ehangach yn y DU. Mewn llawer o'r darparwyr y tu allan i Gymru y rhoddwyd sylw iddynt, gall y rhai sy'n cael eu harsylwi ddewis yr hyn sy'n cael ei arsylwi a gan bwy, gyda rhai yn nodi'n benodol yn eu canllawiau, y dylai unigolion ddewis rhywun sy'n gallu cyfrannu at eu twf fel darlithydd. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, mae angen i reolwr gymeradwyo hunan-ddethol. Mae gweithio mewn parau neu grwpiau o dri yn boblogaidd yng Nghymru a ledled y DU, ac weithiau caiff staff eu dyrannu i barau neu grŵp penodol gan reolwr neu arweinydd cyfadran ar gyfer arsylwi cymheiriaid. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn y DU yn cynnig yr opsiwn i grwpiau bach o staff gydweithio ar thema gwelliant strategol cyfadran neu ysgol.

Mae parau yng Nghymru a thu hwnt yn aml yn gweithio o'r naill ochr a'r llall, ond nid oes rhaid iddynt fod bob amser. Mae'r sawl sy'n arsylwi ym mhob achos yn cael ei ystyried yn hwylusydd a hyfforddwr cefnogol ac mae llawer o ddarparwyr yn y DU sydd wedi adolygu eu cynlluniau yn ddiweddar, fel yng Nghymru, wedi dewis cynnwys opsiwn 'deialog broffesiynol' yn ogystal ag arsylwi gan gymheiriaid mwy traddodiadol. Mae adnoddau llawer o ddarparwyr yn y DU yn pwysleisio gwerth arsylwi neu ddeialog traws-ddisgyblaethol, fel ffordd o fyfyrio ar y modd yr ymgymerir ag addysgu a gwelliant mewn gwahanol feysydd pwnc. Mae rhai darparwyr yn y DU hefyd yn awgrymu cynnwys myfyrwyr yn y broses, er enghraifft, drwy grwpiau ffocws. Mae hwn yn fecanwaith a ddefnyddir ar brydiau gan rai darparwyr yng Nghymru, megis wrth ystyried rhaglen sy'n tanberfformio, ond yn gyffredinol nid yw myfyrwyr yn cyfrannu'n eang at gynlluniau arsylwi gan gymheiriaid ar draws y DU ar hyn o bryd. Cyfeirir yn benodol at recordiadau sain a fideo, ynghyd â thynnu lluniau, mewn rhai llawlyfrau. Mae un darparydd yng Nghymru'n ystyried cynnwys y defnydd dewisol o fideo yn eu cynllun arsylwi.

## Hyfforddiant ac arweiniad i staff sy'n ymwneud ag arsylwi cymheiriaid

Cynigir ystod o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant i staff ar draws yr holl ddarparwyr a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru. Fel y nodir isod, dywedodd pedwar darparydd fod hyfforddiant ffurfiol yn cael ei ddarparu, tra bod un o'r lleill a nododd 'arall' yn gwahaniaethu rhwng hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n ymgymryd ag arsylwadau ac arweiniad i'r rhai sy'n cynnal trafodaethau â chymheiriaid. Nododd dau o'r darparwyr eraill a nododd 'arall' fod arweiniad yn cael ei ddarparu yn hytrach na hyfforddiant ffurfiol, tra nododd un fod hyfforddiant a chanllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Dywedodd un darparydd nad yw hyfforddiant ffurfiol, yn hytrach nag arweiniad, yn cael ei ddarparu oherwydd nad yw'r arsylwadau'n cael eu defnyddio fel rhan o brosesau sicrwydd ansawdd fel y cyfryw, ond maent yn gydweithredol ac yn ddatblygiadol eu natur ac wedi'u hymgorffori mewn model o ddatblygu arfer organig a arweinir gan gymheiriaid.

***Oes hyfforddiant yn cael ei ddarparu’n ganolog i'r rhai sy'n ymwneud ag arsylwi?***




Mae llawlyfrau neu adnoddau amlgyfrwng ar gael yn gyffredinol ac yn cael eu darparu gan uned ganolog. Mae un darparydd, er enghraifft, yn cynnig cwrs ar-lein, i’w ddilyn ar eich cyflymder eich hun, sy’n seiliedig ar yr elfen arfer o’u tystysgrif Addysgu ôl-raddedig mewn Addysg Uwch a achredir gan AU Ymlaen, ynghyd â sesiynau byw ychwanegol i ategu’r elfen ar-lein. Mae darparydd arall yn rhannu eu hyfforddiant ar gyfer arsylwyr yn ddwy ran. Mae'r elfen gyntaf yn anghydamserol ac yn gofyn i arsylwyr wylio fideo a darllen llawlyfr y cynllun, tra bod yr ail yn weithgaredd gweithdy ar-lein cydamserol, yn seiliedig ar gyfres o senarios ac awgrymiadau sydd wedi'u casglu o brofiadau blaenorol arsylwyr. Mae'r senarios hyn yn cynnig cymorth ymarferol mewn perthynas ag amrywiaeth o sefyllfaoedd a all godi. Mae darparydd arall yn cynnig astudiaethau achos, sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, i amlygu'r gwahanol ddulliau y gallai cyfadrannau/ysgolion eu defnyddio. Dywedodd un darparydd, er bod cyfadrannau’n amrywio yn eu dulliau, bod arsylwyr profiadol yn aml yn gweithredu fel mentoriaid i arsylwyr newydd. Nododd darparydd arall, sy'n adolygu eu darpariaeth ar hyn o bryd, eu bwriad i greu fframwaith o egwyddorion fel cyfrwng cymorth.

Yn ogystal â chanllawiau ar gyfer arsylwi, mae rhai o’r darparwyr y cyfwelwyd â hwy yn nodi sut maent hefyd yn canolbwyntio ar gryfhau dealltwriaeth addysgeg yn fwy cyffredinol. Mae un darparydd wedi buddsoddi yn yr ap *HOW2* i gynorthwyo ag archwilio pedagogaidd a darparu cymorth ymarferol yn seiliedig ar dystiolaeth o ran dulliau addysgu. Mae’r ap yn cynnwys ystod eang o ganllawiau gweledol sy’n amlinellu technegau addysgu posibl, yn ogystal â chynnig y cyfle i unigolion rwydweithio a chydweithio ag addysgwyr eraill. Mae un arall yn cynnig modiwlau dewisol mewn addysgu ar-lein ar wahanol lefelau, ynghyd â fforwm wedi'i gymedroli ar addysgu a dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddarparwyr, fel y nodwyd yn flaenorol, yn darparu templedi neu ffurflenni, i gynorthwyo staff sy’n ymwneud ag arsylwi addysgu gan gymheiriaid. Mae gan leiafrif o ddarparwyr wahanol ffurflenni, yn dibynnu ar natur y gweithgaredd a ddewisir. Mae rhai ffurflenni’n cynnig arweiniad ychwanegol ar ffurf awgrymiadau i'w hystyried. Fel y nodwyd gan un darparydd, gall awgrymiadau o'r fath fod yn ganllawiau defnyddiol i'r rhai sy'n llenwi'r ffurflenni. Nid yw cwblhau'r ffurflenni hyn yn orfodol yn y rhan fwyaf o achosion; pwysleisiodd sawl darparydd mai eu diben yw helpu i annog sgwrs ac adfyfyrio beirniadol.

Gellir gweld amrywiad tebyg rhwng darparwyr ar draws y DU. Mae nifer o’r llawlyfrau y rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r prosiect hwn yn cyfeirio at hyfforddiant gorfodol mewn arddulliau hyfforddi ar gyfer arsylwyr, tra bod eraill yn cyfeirio at y ffaith bod dogfennau canllaw yn cael eu darparu i bawb sy’n cymryd rhan yn y broses, ynghyd â hyfforddiant pwrpasol gan uned ganolog, mewn ymateb i'r galw. Mae templedi arsylwi yn y darparwyr y rhoddwyd sylw iddynt yn y DU yn aml yn gymhorthion dewisol ac yn aml yn cynnwys

awgrymiadau ar gyfer cwestiynau neu themâu allweddol i'r arsylwr a'r sawl sy’n cael ei arsylwi eu hystyried. Mae nifer fach o ddarparwyr yn cynnig canllawiau/templedi penodol ar gyfer gwahanol fathau o arsylwadau, megis arsylwadau labordy, gwaith maes ac addysgu ar-lein. Weithiau defnyddir astudiaethau achos sy'n amlinellu sut mae'r broses wedi'i mabwysiadu gan wahanol gyfadrannau, ynghyd ag enghreifftiau o dempledi wedi'u cwblhau, ledled y DU i ddarparu cymorth ychwanegol. Mae detholiad o ddeunydd darllen pellach wedi'i gynnwys mewn rhai llawlyfrau yng Nghymru ac yn ehangach.

## Rhannu arfer arloesol sy'n gysylltiedig ag arsylwi cymheiriaid

Dangosodd yr holiadur a chyfweliadau dilynol fod rhannu awgrymiadau ar gyfer gwelliant, a meysydd lle mae yna arfer da, sy'n deillio o'r gweithgaredd arsylwi gan gymheiriaid, yn digwydd drwy amrywiaeth o ddulliau. Er ei bod yn ymddangos bod rhannu arfer da yn digwydd yn bennaf ar lefel ysgol mewn sawl darparydd yng Nghymru, cyfeiriwyd hefyd yn yr ymatebion i gyfarfodydd cyfadran, cynadleddau a phwyllgorau addysgu a dysgu, ac adolygiadau rhaglenni blynyddol. Defnyddir data a gesglir yn ganolog yn aml i nodi meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, nododd un unigolyn a gyfwelwyd fod ffurflen Microsoft ddienw yn caniatáu ar gyfer nodi themâu allweddol ar draws y darparydd.

Mae darparwyr y tu allan i Gymru hefyd yn cyfeirio at ystod debyg o arferion ar gyfer lledaenu gwybodaeth. Mae llawer o ddarparwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar rannu ar lefel ysgol, yn aml drwy bwyllgorau dysgu ac addysgu rhaglen neu bwnc. Mae meysydd ar gyfer datblygiad cyffredinol yn aml yn cael eu rhannu ag uned ddysgu ac addysgu ganolog fel rhan o'r broses o gadarnhau bod arsylwi gan gymheiriaid wedi digwydd o fewn cyfadran neu ysgol benodol. Fel yng Nghymru, mae adolygiadau datblygiad personol yn cael eu gweld fel cyfle i rannu arfer arloesol neu godi ceisiadau personol am hyfforddiant ychwanegol. Mae gan rai darparwyr adnodd ar-lein penodol ar gyfer rhannu arfer da, fel ffordd o gyfrannu at welliant parhaus addysgu a dysgu ar draws disgyblaethau.

## Heriau sy'n ymwneud ag arsylwi cymheiriaid

Nodwyd rhai heriau allweddol gan ddarparwyr yng Nghymru, megis ymgysylltiad llawn gan yr holl staff mewn modd cyson, yn enwedig lle mae cyfadrannau’n cynnal y cynlluniau eu hunain, ac mae’n anochel bod amrywiaeth o ran dulliau gweithredu ac ymgysylltu. Roedd un darparydd yn cydnabod, yn dibynnu ar eu cefndir academaidd, fod rhai disgyblaethau yn naturiol yn fwy cyfarwydd ag adfyfyrio, ac yn gweld y broses yn llai heriol o ganlyniad i hynny. Cyfeiriwyd hefyd at faint o adnoddau sydd ar gael, er enghraifft o ran pa hyfforddiant y gellid ei gynnig a'r amser sydd ar gael gan staff. Pwysleisiodd dau ddarparydd sy'n adolygu eu cynlluniau ar hyn o bryd bwysigrwydd sicrhau bod amser priodol ar gyfer arsylwi gan gymheiriaid yn cael ei gynnwys mewn unrhyw fodel ar gyfer dyrannu llwyth gwaith. Dywedodd un arall y gall gwahanol amserlenni ar gyfer addysgu ei gwneud yn anodd gosod terfynau amser sefydliadol ar gyfer cwblhau’r prosesau hyn. Nododd un darparydd fod symud i drafodaeth ymysg cymheiriaid fel y prif gyfle datblygu cymheiriaid, yn hytrach nag arsylwi cymheiriaid, wedi lleddfu’r heriau a grëwyd yn sgil anawsterau amserlennu, a dywedodd un arall, er bod cyfle i weithio mewn parau a grwpiau o dri yn cael ei gynnig, ei bod yn haws trefnu parau. Cydnabu darparydd arall y gall mynediad at adnoddau Amgylchedd Dysgu Rhithiol fod yn her ar brydiau, er bod y staff wedi croesawu’r cyfle i ystyried deunyddiau addysgu fel rhan o gynllun.

Roedd astudiaethau achos manwl o arsylwyr a’r rhai sy’n cael eu harsylwi y tu allan i gwmpas y prosiect hwn, ond mae astudiaethau achos y tu allan i Gymru wedi nodi bod cydweithwyr sy'n rhy agos weithiau'n ei chael hi'n anodd rhoi adborth gonest am agweddau

negyddol ar addysgu[1]. Ni chodwyd hyn gan y rhai sy'n gyfrifol am drefnu arsylwi gan gymheiriaid mewn unrhyw gyfweliad a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect hwn. Fodd bynnag, mewn trafodaeth, roedd rhai darparwyr yng Nghymru o'r farn bod deialog rhwng cymheiriaid yn llai brawychus nag arsylwi gan gymheiriaid ac yn ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Awgrymwyd hefyd y gall arsylwi neu drafodaethau rhyngddisgyblaethol helpu i annog ffocws ar addysgeg, yn hytrach na meysydd pwnc unigol, a thrwy hynny efallai helpu i gael gwared ar rai rhwystrau.

---

[1] Er enghraifft: Yiend, J a Weller, S a Kinchin, I (2014) *Peer observation of teaching: The interaction between peer review and developmental models of practice, Journal of Further and Higher Education,* 38(4), tud. 465-484; a

Carroll, C ac O'Loughlin, D (2014) *Peer observation of teaching: enhancing academic engagement for new participants Innovations, Education and Teaching International,* 51:4, tud. 446-456

# Casgliad

Mae'n amlwg o'r holiadur, y cyfweliadau lled-strwythuredig a'r ymchwil wrth y ddesg a wnaed fel rhan o'r prosiect gwelliant hwn a ariennir gan CCAUC, bod prosesau yn y darparwyr a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru ar y cyfan yn debyg i rai'r DU yn ehangach. Wrth adolygu eu cynlluniau dywedodd sawl darparydd eu bod wedi edrych ar draws y sector ar yr hyn sy'n ymddangos yn gweithio'n dda, tra hefyd yn ystyried, drwy ymgynghori, yr hyn y teimlai eu staff a fyddai o fudd o safbwynt personol a phroffesiynol. Mae pob darparydd a adolygwyd yn gwahanu eu cynllun oddi wrth brosesau sicrhau ansawdd neu reoli perfformiad. Er bod elfen o amrywiad ar draws darparwyr unigol, a bod sicrhau ymgysylltiad llawn weithiau'n heriol, mae arsylwi gan gymheiriaid yn cael ei ystyried yn weithgaredd cydweithredol, datblygiadol i bawb. Ystyrir bod arsylwi gan gymheiriaid yn broses ffurfiannol sydd â'r potensial i gyfrannu'n sylweddol at dwf staff, a thrwy hynny gryfhau addysgu a dysgu.

Roedd effaith benodol arsylwi addysgu gan gymheiriaid ar ddeilliannau myfyrwyr y tu allan i gwmpas y prosiect hwn, er i un darparydd nodi eu bod wedi sylwi ar gynnydd mewn data llwyddiant myfyrwyr yn dilyn cyflwyno cynllun newydd ar gyfer arsylwi gan gymheiriaid. Dywedodd darparydd arall fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod eu proses arsylwi gan gymheiriaid yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau addysgeg ymarferwyr ac ar brofiad dysgu myfyrwyr.

Fel cam nesaf, gallai cyfweliadau ag ystod o unigolion sydd wedi ymwneud ag arsylwi addysgu gan gymheiriaid fel arsylwr neu'r sawl a arsylwir ddarparu data meintiol ac ansoddol gwerthfawr ar effaith uniongyrchol arsylwi gan gymheiriaid ar arferion addysgol a chyflawniad myfyrwyr. Gan fod llawer o'r darparwyr a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru naill ai yn y broses o adolygu neu wedi adolygu eu cynlluniau'n ddiweddar, byddai hyn yn arbennig o amserol. Ar yr un pryd, mae gan fwy o gyfranogiad gan lais y myfyrwyr mewn cynlluniau o'r fath y potensial i wella ymhellach werth arferion arsylwi myfyriol gan gymheiriaid o fewn y system addysg drydyddol yng Nghymru. Mae dau ddarparydd yn ystyried cynnwys myfyrwyr yn y broses arsylwi gan gymheiriaid yn y dyfodol, tra bod un arall yn ystyried cynnwys opsiwn i 'ddod yn ddysgwr' yn eu cynllun. Ffocws arsylwi o'r fath fydd ymateb y myfyrwyr a sut maent yn ymwneud â sesiwn benodol, yn hytrach na datblygiad darlithydd fel y cyfryw.

Mae'n amlwg bod arsylwi gan gymheiriaid wedi'i groesawu'n llawn gan bob darparydd a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru. Yn y cyfweliadau, dywedodd sawl darparydd fod cymryd rhan mewn cynllun o'r fath yn helpu unigolion i deimlo eu bod wedi'u dilysu fel academyddion drwy greu lle cyfrinachol a diogel i fyfyrio'n feirniadol ar arferion. Mae'r prosiect gwelliant hwn wedi ceisio galluogi rhannu syniadau ac arferion arloesol yn ehangach ar draws y sector, wrth i gynlluniau arsylwi gan gymheiriaid barhau i ehangu ac esblygu er budd yr holl staff a myfyrwyr.

## Atodlen 1 - Cyfranwyr at y prosiect

Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Bangor

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Grŵp Llandrillo Menai

Grŵp Colegau NPTC

Prifysgol Abertawe

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

## Atodlen 2 - Darllen Pellach


Carroll, C ac O'Loughlin, D (2014) *Peer observation of teaching: enhancing academic engagement for new participants Innovations, Education and Teaching International,* 51:4, tud. 446-456

Hendry, GD ac Oliver, GR (2012) *Seeing is Believing: The Benefits of Peer Observation, Journal of University Teaching and Learning Practice* Cyfrol 9 Rhifyn 1

Yiend, J a Weller, S a Kinchin, I (2014) *Peer observation of teaching: The interaction between peer review and developmental models of practice, Journal of Further and Higher Education*, 38(4), tud. 465-484

O'Leary, M (2014) *Classroom observation: A guide to the effective observation of teaching and learning,* London: Routledge.

O'Leary, M a Savage, S (2020) *Breathing new life into the observation of teaching and learning in higher education: moving from the performative to the informative, Professional Development in Education*, 46(1), tud 145-159

Shortland, S (2004) *Peer observation*: *A tool for staff development or compliance? Journal of Further and Higher Education*, 28(2), tud 219-228

Shortland, S (2010) *Feedback within peer observation: Continuing professional development and unexpected consequences, Innovations in Education and Teaching International*, 47(3), tud 295-304

Tenenberg, J (2016) *Learning through observing peers in practice, Studies in Higher Education*, 41(4), pp 756-773

Thomson, K a Trigwell, K (2018) *The role of informal conversations in developing university teaching? Studies in Higher Education*, 43(9), tud. 1536-1547



Yiend, J a Weller, S a Kinchin, I (2014) *Peer observation of teaching: The interaction between peer review and developmental models of practice, Journal of Further and Higher Education*, 38(4), tud. 465-484

# Atodlen 3 – Cwestiynau'r Arolwg

Sefydliad:

Enw a rôl yr unigolyn sy'n cwblhau'r holiadur:

Cyfeiriad e-bost:

1. A oes gan eich sefydliad broses/cynllun arsylwi gan gymheiriaid?

    a. Oes
    b. Nac oes
    c. Arall

2. A yw'r broses yn orfodol ar gyfer rhai categorïau o staff? Ticiwch bob blwch perthnasol isod.

    a. Staff darlithio llawn-amser
    b. Staff darlithio rhan-amser
    c. Ôl-raddedigion â chyfrifoldebau addysgu
    d. Staff addysgu sy'n cael eu talu fesul awr
    e. Staff anrhydeddus / allanol
    f. Arall – nodwch os gwelwch yn dda:

3. Beth yw'r enw a roddir ar eich proses?

    a. Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid
    b. Cefnogaeth gan Gymheiriaid ar gyfer Addysgu
    c. Deialog rhwng Cymheiriaid ar Addysgu
    d. Adolygiad o Addysgu gan Gymheiriaid
    e. Arall – nodwch os gwelwch yn dda:

4. Pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y broses?

    a. Academi ganolog / Canolfan Dysgu ac Addysgu
    b. Cyfadrannau / Colegau Unigol
    c. Swyddfa Academaidd / Ansawdd ganolog neu debyg
    d. Adnoddau Dynol
    e. Arall – nodwch os gwelwch yn dda:

5. Beth yw ei fanteision? Rhowch y canlynol mewn trefn o 1-6, gydag 1 y pwysicaf yn eich barn chi.

    1. Mae'n nodi arfer gorau ar gyfer lledaenu ehangach

    2. Mae'n cyfoethogi arfer addysgu ac yn gwella ansawdd profiad myfyrwyr

    3. Mae'n cynorthwyo â chodi hyder a datblygu arfer ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r broses

    4. Nid yw'r feirniadol ac mae'n annog cydweithio, rhwydweithio a thrafodaeth fyfyriol

5. Mae’n codi ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau addysgu a dysgu

6. Mae’n helpu i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol

Buddiannau ychwanegol eraill yn eich barn chi – nodwch:

6. Ydy'r broses yn digwydd?

   a. Yn flynyddol
   b. Unwaith bob dwy flynedd
   c. Arall - nodwch os gwelwch yn dda

7. Pa weithgaredd addysgu y gellir ei ystyried fel rhan o'ch proses arsylwi gan gymheiriaid? Ticiwch bob gweithgaredd perthnasol, boed hynny wyneb-yn-wyneb neu ar-lein.

   a. Darlithoedd
   b. Tiwtorialau
   c. Seminarau
   d. Gwaith maes
   e. Gwaith labordy
   f. Goruchwyliaeth ôl-raddedig
   g. Arall – nodwch os gwelwch yn dda:

8. Oes hyfforddiant yn cael ei ddarparu’n ganolog i'r rhai sy'n ymwneud ag arsylwi?

   a. Oes
   b. Nac oes
   c. Arall

Amlinellwch natur unrhyw hyfforddiant a ddarperir, gan nodi a yw hwn yn ddewisol neu’n orfodol:

9. Ar raddfa o 1-5, gyda 5 yn hyblygrwydd llwyr, faint o hyblygrwydd sydd gan Gyfadrannau neu Ysgolion o ran y broses? *Er enghraifft, yn hytrach na phrosesau traddodiadol o arsylwi gan gymheiriaid, efallai y bydd Cyfadran/Ysgol yn dymuno ategu neu ddisodli proses o'r fath â gweithgaredd arall rhwng pâr neu grŵp sy'n cynnig cefnogaeth i’r naill a’r llall, a all ganolbwyntio ar thema benodol neu fynd i'r afael ag angen datblygu strategol.*

10. Ar raddfa o 1-5, gyda 5 yn hyblygrwydd llwyr, faint o hyblygrwydd sydd gan y rhai a arsylwir o ran y broses arsylwi gan gymheiriaid? *Er enghraifft, o ran dewis pwy fydd yn eu harsylwi, beth fydd ffocws yr arsylwi, a natur yr adborth yr hoffent ei dderbyn.*

11. Amlinellwch yn gryno wahanol gamau'r broses arsylwi gan gymheiriaid yn eich sefydliad, gan nodi a ddefnyddir templedi gosod.

12. Sut mae meysydd o ddiddordeb a rennir, syniadau ar gyfer gwelliant ac enghreifftiau o arfer gorau sy'n codi o arsylwi gan gymheiriaid, yn cael eu lledaenu ar draws eich sefydliad a thu hwnt?

13. A ydych wedi canfod bod unrhyw heriau ymarferol, gweithredol wrth weinyddu eich proses arsylwi gan gymheiriaid?

Er enghraifft, a yw prinder staff sy’n siarad Cymraeg wedi cael effaith ar arsylwi sesiynau cyfrwng Cymraeg?

14. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi ynghylch eich proses arsylwi gan gymheiriaid?

15. Nodwch isod unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'ch proses arsylwi gan gymheiriaid, sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus, y teimlwch y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw atynt. Cofiwch gynnwys dolenni, lle bo modd.

Cyhoeddwyd - Medi 2023

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)